

239) Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council: Cyfarfod Misol / Monthly Meeting, Nos Lun Chwefror 19ed 2024 --- Monday 19<sup>th</sup> February 2024 —7.30pm at Tabernacle Chapel Vestry, Pencader.

---

Cynghorwyr yn bresennol / Councillors present:

M. Griffiths, G. Jones, A. Davies, R. Thomas, A. James, D. Davies, H. Lewis, S. Mason, D. Griffiths, Cynghorydd Sir / County Councillor L. Evans.

Ymddiheuriadau: V. Davies, J. Jones      Clerc: Anita Evans      Ymwelwyr / Visitors: Neb / None

Ar ddechrau'r cyfarfod, cadwyd munud o dawelwch yn dilyn marwolaeth Mrs Janet Jones a fu'n gwasanaethu'r Cyngor yn gydwytbodol iawn dros gyfnod hir fel Gofalydd y Cornel Chwarae. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i gŵr Eric, ei phlant a'i hwyron. Coffa da amdani. At the beginning of the meeting, a minute's silence was observed following the death of Mrs. Janet Jones, who had served the Council conscientiously for a very long period as Caretaker of the Play Corner. We will miss her greatly. We extend the Council's sincere sympathy with her husband Eric, her children and grandchildren. We will fondly remember her.

Hefyd, estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor â Mrs. Val Davies a Mr. Dylan Davies ar farwolaeth eu mam a mamgu.

The Council's condolences were also extended to Mrs. Val Davies and Mr. Dylan Davies on the passing of their mother and grandmother.

1) Cadeiriwyd gan M. Griffiths. Croesawyd pawb, a nodwyd ymddiheuriadau.

Meeting chaired by M. Griffiths who welcomed all and apologies were noted. Pleser oedd croesawu aelod newydd sef Mr. Deian Griffiths. The Chairman extended a warm welcome to a new member, Mr. Deian Griffiths.

2) Datgan diddordeb gan Gynghorwyr/Declarations of interest — A. Davies, R. Thomas (tud/page 3 [9d]).

3) Heddlu: Nid oedd swyddog yn bresennol; roedd y Cyngor am dynnu sylw fod arogl cyffuriau wedi ei sylwi yn ardal Bro'r Hen Ŵr. Byddwn yn hysbysu'r Heddlu. / No police present; the Council wished advise Police of the smell of drugs in the vicinity of Bro'r Hwn Ŵr.

4) Cofnodion Cyfarfod Mis Ionawr: Gofynnodd y Cadeirydd i'r canlynol gael eu nodi a'u cywiro:

Ni chafodd y "Polisi Talu Lwfansau Cynghorwyr" ei dderbyn (fel sydd wedi ei nodi). Gofynnwyd am ei osod ar Agenda Cyfarfod Mis Chwefror.

Nid oedd cofnod o'r canlynol: soniwyd am y cyrsiau hyfforddiant oedd ar gael, gan egluro beth oedd yn cael eu cynnig yn rhad ac am ddim, yn ogystal ag annog pawb i sicrhau eu bod yn dilyn hyfforddiant Cod Ymarfer o leiaf unwaith yn ystod tymor etholiadol y Cyngor. Soniwyd hefyd am gyrsiau newydd sydd yn cael eu cynnig gan Un Llais Cymru, a bod y Cyngor wedi derbyn bwrsari o £100 tuag at gostau hyfforddiant.

Minutes (January Meeting) - The Chairman drew attention to the following corrections and omissions:

Policy for Payment of Councillors' Allowances—not received as noted but placed on Agenda of February Meeting.

There was no record of the following: information was provided regarding training courses available, some of which are available at no cost to the Council. Councillors were encouraged to ensure Code of Conduct training was undertaken at least once during the electoral term of the Council. It was also noted that new courses have recently been prepared by One Voice Wales, and that the Council has received a bursary of £100 towards training costs.

Gyda chytundeb i'r newidiadau uchod, cafodd y Cofnodion eu derbyn yn gywir / With agreement to the above corrections / additions, Minutes were accepted as correct. (Proposed: D.Davies; Seconded: A.Davies).

#### 240) 5) **Materion y Clerc** / Clerk matters:

a) i) Cyngor Sir — Mae'r Adran Briffyrdd wedi atebion i'n cwestiynnau o gyfarfod Mis Tachwedd. / The Highways Department have replied to the queries raised at our meeting in November.

Llinellau melyn Pontweli — ateb oddi wrth M. Jacob i ddweud fod ei Adran wedi bod dan bwysau, ac yn gobeithio bydd y gwaith yn cael ei hysbysebu ddiwedd Mawrth. / In response to our long-standing request re: painting of yellow lines painting at Pontweli, we have been advised that due to heavy workload there has been a delay, but this work will be advertised by the end of March.

ii) Cyfleusterau: Pencader— dim diweddariad /no update on Pencader Conveniences. Alltwalis —Cyngor Sir yn dweud fod y drws wedi cael sylw; Clerc wedi ymweld ddydd Gwener — llawr yn frwnt iawn, a dŵr yn dal i Gronni. / County Council advise they have solved the problem with the door. / Clerk visited last Friday — floor very dirty, and water still pooling.

iii) Etholiadau — derbyniwyd dogfen swyddogol oddi wrth Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir i'n hysbysu mai un ward fydd ein Cyngor yn dilyn etholiad Mai 2027, gyda 12 Cynghorwr / we have received an official document from Carmarthenshire County Council's Legal Department to advise that this Council will be un-warded, with 12 serving Councillors following the next Election in May 2027.

ii) Goleuadau—adran wedi ymateb ynglyn â Bro'r Hen Wr—mae'r Cyngor Sir wedi cysylltu â'r perchennog. Fe godwyd y cwestiwn yma—gan nad yw'r safle wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor Sir, pwy sydd wedi gosod tar ar y safle? / As Bro'Hen Wr has not been adopted by the County Council officials have contacted the owner. Question arises who did the tarmacadam work on the site?

b) Mynwent y Plwyf, Pencader — cyfarfu aelodau ar y safle i weld y gwaith sydd angen ei wneud ar y bloc toiledau (13/02). Diolch i H. Lewis am lunio rhestr y gwaith sydd angen ei wneud. Gan na chafwyd ymateb i'r hysbyseb am brisiau i wneud Gwaith ar y toiledau a'r sied yn y fynwent penderfynwyd gofyn i'r canlynol brisio'r Gwaith: Andrew Lewis, Llanllwni, John Jones, Dolgran a Keith Lewis Pencade, ac i anfon y pris i'r clerck erbyn 15fed Mawrth 2024

d. Mae'r plwmer wedi bod yn cywiro'r tap. Byddwn yn cloi'r stafell gefn. Mae 2 ffrind, (un o lwerddon) wedi bod yn ymweld â'r safle, ac yn canmol gwaith y Gofalwr. Nid yw'r Clerc wedi cael ymateb oddi wrth Gwendraeth Tar. Ymwelwyd ar Ardd Goffa, Yn dilyn trafodaeth a dim ymateb i'r hysbyseb am amcangyfrif ar gyfer cael gwared ar y coed bytholwyrdd penderfynwyd gofyn i gontractwr lleol dynnu'r coed, a symud

ymlaen gyda phlannu coed Ffawydd maes o law. Mae meithrinfa Farm Yard wedi argymhell y goeden Ffawydd fel y mwyaf addas.

Pencader Cemetery - The Councillors met on 13<sup>th</sup> February at the Parish Cemetery Pencader to see work which needs to be undertaken on the toilet block. H. Lewis has kindly drawn up a list of specifications, and the Council's appreciation for this work was noted. As no response has been received following advertising for estimate of the cost for the work it was decided to ask the following for estimates: Andrew Lewis, Llanllwni, John Jones, Dolgran, Keith Lewis Pencader, and to forward the estimate to the Clerk by 15 March 2024. The plumber has attended to the outside tap. Two friends, (one from Ireland) have visited the site and passed on their appreciation on the care and attention our caretaker shows in his work. The room at the rear of the Toilet block will be locked. Clerk has not heard back from Gwendraeth Tar. We also visited the Remembrance Garden and following discussion and no response to the advert for an estimate for removing the ever green trees it was decided to ask a local contractor to remove the trees, and to move forward with the planting of Beech trees in due course. Farm Yard nurseries has recommended the Beech tree as the more suitable.

c) Cornel Chwarae — Byddwn yn trafod swydd y gofalwr tro nesaf. / The position of Caretaker will be discussed at the March meeting.

ch) Bancio - Mae A. Davies wedi siarad â'r adran berthnasol ac mae pethau ar waith. / A. Davies has spoken with Lloyds Bank, and the transfer is ongoing.

d) Defibrillators - mae 10 o'r rhain yn y Plwyf, a bydd y swyddog sy'n cael ei gyflogi gan Fferm Wynt Brechfa yn cymeryd gofal amdanynt. / We now have 10 defibrillators sited in the Parish, serviced by Brechfa Wind Farm.

dd) Panel Statkraft — mae angen un cynrychiolydd o'r Cyngor i weithredu ar y panel. Bodlonodd D. Griffiths gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd. / D. Griffiths agreed to represent the Council on the Statkraft Community Benefit panel.

e) Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Cae'r Felin - mae angen un cynrychiolydd o'r Cyngor. Mae un Cynghorydd yn hystyried y mater a bydd yn rhoi gwybod yn y cyfarfod nesa / Cae'r Felin School requires a representative from the Community Council to serve on its Governing Body - one Councillor is considering the request and a decision will be made by the next meeting.

---

**6) Ariannol / Financial:** Cafwyd mantolen mis Ionawr yn gywir — cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan R. Thomas. Diolch i H. Lewis am y gwaith. Rhestrwyd / pasiwyd biliau i'w talu. Balance sheets for January found to be correct; proposed by D. Davies, seconded by R. Thomas. H. Lewis was thanked for completing the balance sheet. Bills listed and permission given to Clerk to pay, (proposed by D. Davies; seconded by D. Griffiths.)

Ynglyn â phenodi cyfrifydd mewnol cynigiodd H. Lewis ein bod yn cysylltu ag E. Jones Llanybydder, eiliodd G.Jones / Re: internal accountant /auditor, we will contact E. Jones, Llanybydder. Proposed by Haulwen Lewis, seconded by Glyn Jones.

**7) Cynllunio / Planning:** PL/07015 - cesspit Blaencod New Inn— e-mailed—no objection.

## 8) Dogfennaeth / Documentation:

1. Polisi Talu Lwfansau Cynghorwyr - i'w ystyried yng nghyfarfod mis Mawrth / Councillors' Allowances Policy to be considered at next meeting.

2. Cynllun Iaith Gymraeg / Welsh Language Scheme - derbyniwyd gan y Cyngor — D. Davies yn cynnig, a H. Lewis yn eilio. Diolch i M. Griffiths am ei gyflwyno /policy received by Council- prop. D. Davies, H. Lewis seconded. Many thanks to M. Griffiths for his hard work with policies. Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei hanfon at Gomisiynydd yr Iaith / The Welsh Language Scheme will be sent to the Welsh Language Commissioner for approval.

3) Derbyniwyd ffurflen newydd 'Datgan Diddordeb Cynghorwyr' / The Council adopted a new form for the 'Declaration of Interest of Councillors'.

9) Darllen gohebiaeth ac ymateb yn briodol: wedi eu e-bostio: / Correspondence e-mailed:

a) Cyngor Sir Gâr: Cynllun Datblygu Lleol / Local Development Plan.

Newidiadau i 40mya mewn rhai ardaloedd/changes to 40mph in some districts.

b) Un Llais Cymru—rhestr cyrsiau hyfforddiant / One Voice Wales—training courses available.

c) Audit 2020-21—nawr mae'r wybodaeth wedi ein cyrraedd. Codwyd dau bwynt - un yw'r ffaith fod yr archwiliwr mewnol wedi arwyddo'r dogfennau ar ôl y Cadeirydd — yr archwiliwr ddylai arwyddo gyntaf; yr ail beth yw cwestiwn fod ein cofrestr asedau ddim yn gyflawn. Nodwyd y materion yma i sicrhau gweithdrefn gywir yn y dyfodol.

Results of Audit 2021-21 have now been received. Two questions have arisen - firstly that the internal auditor signs the documentation before the chairman; secondly that our asset register was not complete. Both matters have been noted the Council to ensure correct procedure in future audits.

ch) Homestart — gwybodaeth / information. Bydd D. Davies yn mynd â'r ffurflenni i Ysgol Cae'r Felin. / The relevant forms will be passed on to Cae'r Felin School by D. Davies.

d) GreenGen - peilonau yn ein Plwyf. Mae nifer o'r Cynghorwyr wedi mynychu'r digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd yn Llanllwni ac Alltwalis yn ddiweddar. Datganwyd diddordeb gan A. Davies a R. Thomas. Esboniodd y Cynghorydd Sir Linda Evans yn fanylach am y cynlluniau, ac annogir unigolion i lenwi ac anfon y llythyr ymgynghoriad at GreenGen. Yn ogystal, bydd llythyr yn mynd oddi wrth y Cyngor Cymuned.

GreenGen - Pylons in our Parish — many of the Councillors have attended the Community Events at Llanllwni and Alltwalis. A. Davies and R. Thomas declared interest in relation to this matter. County Councillor Linda Evans provided further information about the project, and everyone is advised to fill and return the consultation forms. A letter will also be sent from the Council.

dd) E. Jones — yn tynnu ein sylw at gofnodion mis Tachwedd. Mewn camgymeriad, nodwyd fod Mr. Jones wedi penderfynu gorffen edrych ar ôl ein diffibrilwyr; yn hytrach mae Mr. Jones am ddweud ei fod wedi cydymffurfio gyda'r cais i drosglwyddo'r cyfrif "My Circuit" i'r swyddog sy'n cael ei gyflogi gan Fferm Wynt Brechfa. Bydd llythyr o ymddiheuriad yn cael ei anfon at Mr. Jones, ynghyd â'n diolch diffuant iddo am wneud y gwaith dros gyfnod hir. Cywirir hyn ar gofnodion Mis Tachwedd.

E. Jones has corresponded pointing out that November minutes are incorrect. It was noted that Mr. Jones had decided to finish looking after the defibrillators in our Parish. However, Mr. Jones wishes to point out that he has conformed with the request to transfer the “My Circuit” account to the officer employed by Brechfa Forest Wind Farm. A letter of apology will be sent to Mr. Jones as well as a sincere vote of thanks for the hard work undertaken over a long period of time. The minutes will be corrected.

e) Ysiwriant Clear Councils — mae’r Cyngor wedi derbyn llythyr yn cynnig rhoi pris. Gan fod ein tymor o dair mlynedd gyda Zurich yn gorffen ym Mis Mehefin eleni, byddwn yn cysylltu â thri chwmni i ofyn am bris yn nes i’r amser hwnnw. We have received correspondence from Clear Councils offering to provide an insurance quote. As our three-year contract with Zurich ends in June, we will request quotes from three companies nearer to that time.

f) Nacro ---digwyddiadau lleol / local events.

ff) Myfyrwraig Ph.D. yn holi a fyddai’n bosib iddi ddod i Fynwent y Plwyf i wneud arolwg. Barn y Cynghorwyr oedd I wrthod y cais. / Request from a Ph.D. student wishing to carry out a survey at the Parish Cemetery, Pencader. Members declined the request.

g) Cysggodfannau bysiau: Derbyniwyd llythyr oddiwrth ‘Core Clean Services’ yn cynnig glanhau ein cysgodfannau bysiau. Gan nad yw’r Cyngor Sir yn glanhau y cysgod fannau, er ei cyfrifoldeb nhw yw eu glanhau penderfynwyd gofyn i’r cwmni yma a oes ganddynt yr yswiriant priodol, ac iddynt anfon copi ymlaen i’w wirio.

Bus shelters: Letter was received from ‘Core Clean Services offering their service too clean the bus shelters. Although this is the responsibility of Carmarthen County Council it is not being done. It was decided to ask the company if they have the necessary insurance cover and to let us have a copy of same.

h) Cadarnhawyd ein bod yn talu £40 Yswiriant GDPR

It was confirmed that a sum of £40 to cover GDPR regulations

[10\) Unrhyw Fater Arall - gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr /Any Other Business - information from Councillors:](#)

G. Jones - tyllau / potholes opposite Argoed Fach.

A. Davies - dŵr yn tarddu ar yr hewl ochr draw Glanawmor Uchaf / water coming up through the manhole opposite Glanawmor Uchaf; tyllau / holes on speed hump in Llanfihangel; Farmers Pencader—sbwriel wedi ei adael tu ôl y toiledau / rubbish has been dumped behind the toilets – County Councillor L. Evans is dealing with this matter; Pafiliwn — cctv ddim yn gweithio - mae Dyfed Alarms wedi eu hysbysu /the cctv in the Pavillion is not working — Dyfed Alarms has been informed.

D. Davies - arwydd ffordd yn y clawdd ochr draw Penrhiw / road sign left in hedge opposite Penrhiw; arwydd yn wynebu y ffordd anghywir ar ôl Ffatri Bwyd y Cŵn cyn y troad am Dryslwyn / a sign facing the wrong direction past Cambrian Pet Food, before the junction.

A. James — wedi derbyn hyfforddiant Côt Ymddygiad / has attended Code of Conduct training.

H.Lewis - hewl heibio Castell Du, Dolgran fel afon — gwteri'n llawn / road past Castell Du is flooded — drains are blocked; mae llawer o bridd gwahaddod yn y Fynwent / several mole-hills in the Parish Cemetery.

Cynghorydd Sir / County Councillor L. Evans - amlinellu torriadau cyllideb y Sir / outlined the County's budget cuts.

Clerc - tynnu sylw at y biniau gwyrdd bwyd / concerned about the green food bins strewn on pavements / roads after collection.

M. Griffiths - atgoffa fod sedd wag ar ein Cyngor / noted there is one vacant seat on this Council; darparu gwybodaeth ynglyn â system "Meeting Owl Pro" ar gyfer cyfarfodydd hybrid / provided information re: "Meeting Owl Pro" to facilitate hybrid meetings.

Gorffennwyd / Meeting ended 9.55 p.m.

---

DRAFT